Bwrdd Gweithredol Tŷ'r Cwmnïau
Cylch Gorchwyl

Pwrpas

Pennu cyfeiriad Tŷ'r Cwmnïau, gan gynnal stiwardiaeth a llywodraethu cyffredinol trwy ein gwerthoedd/egwyddorion a sicrhau ein bod yn gallu cynnig gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid.

Cwmpas y Bwrdd Gweithredol

Pennu'r cyfeiriad

- Cyfleu ein pwrpas, ein gwerthoedd a'n hegwyddorion craidd
- Darparu arweiniad strategol, gan osod y cwsmer wrth galon popeth a wnawn
- Sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cyd-fynd â'n strategaeth a'n hamcanion strategol
- Cynrychioli buddiannau strategol Tŷ'r Cwmnïau wrth lunio a chyflwyno mentrau llywodraeth-eang.

Stiwardiaeth a llywodraethu cyffredinol

- Sicrhau bod y strwythur llywodraethu cyffredinol yn ateb y gofyn
- Sicrhau bod y byrddau rheoli priodol yn cyflawni'r hyn sy'n ofynnol ganddynt
- Sicrhau bod risgiau strategol o fewn y sefydliad yn cael eu hadnabod a'u rheoli
- Sicrhau rheolaeth effeithiol ar gyllid
- Cyflawni cyfrifoldebau penodedig o ran rheolaeth gorfforaethol, yn arbennig mewn perthynas â chynllunio busnes a'r adroddiad blynyddol
- Ystyried unrhyw eitemau ar yr agenda ar gyfer newid strategol sydd y tu hwnt i'r cynllun busnes blynyddol, a'u blaenoriaethu
- Sicrhau bod penderfyniadau'n cyd-fynd â'n hegwyddorion a'n gwerthoedd.

Sicrhau ein gallu fel sefydliad i gyflawni ar ran ein cwsmeriaid

- Darparu eglurder o ran disgwyliadau ar gyfer yr holl staff
- Sicrhau bod gennym ni'n bobl briodol â'r sgiliau priodol yn y mannau priodol ar yr adeg briodol
- Sicrhau ein bod ni'n cyflwyno gwelliannau o ran effeithlonrwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn
- Sicrhau ymglymiad y sefydliad trwy gyfathrebu da.

Mesuriadau o lwyddiant

- Bodolaeth gweledigaeth a chyfeiriad strategol clir ar gyfer Tŷ'r Cwmnïau
- Cynnydd yn erbyn y cynllun strategol
- Byrddau Rheoli effeithiol
- Penderfyniadau priodol yn cael eu gwneud ar yr adeg briodol.

Byddwn yn ein hasesu ein hunain ar y mesurau hyn trwy:

- Gyflawni hunanasesiad ym mhob cyfarfod, gan gynnwys yn erbyn y gwerthoedd
- Asesu ein penderfyniadau yn erbyn ein hegwyddorion
- Cyflawni adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y bwrdd
- Casglu adborth gan y Byrddau Rheoli a'r Byrddau Llywio mewnol
- Casglu tystiolaeth am berfformiad o Gerdyn Sgorio'r Busnes
- Casglu adborth o'r arolwg o staff, adborth 360 gradd a sianeli eraill ar gyfer cyfathrebu mewnol

Ymrwymiad y Bwrdd Gweithredol i'r sefydliad

Bydd y Bwrdd Gweithredol yn:-

- Pennu agenda cyffredinol yn y cynllun strategol a'r cynllun busnes
- Sicrhau bod y pwrpas, y gwerthoedd a'r egwyddorion wrth galon yr hyn a wnawn
- Sicrhau bod yna gyfathrebu ddwy-ffordd effeithiol.

Medi 2011